## Arddangosfa Agored MiR 2023

Dyddiadau'r arddangosfa : 15 Gorffennaf - 12 Awst.
Rhagarddangosiad : 14 Gorffennaf 5yp-8yh
Dyddiadau cyflwyno eich gwaith : Mehefin 30/Gorffennaf 1 yn g39, Stryd Oxford, Caerdydd CF24 3DT rhwng 1-6yp
Dyddiadau casglu eich gwaith : Awst 18/19 rhwng 1-6 yp o g39

Canllawiau a gwybodaeth cyflwyno gwaith :

Rhestr wirio :
Ydy'r gwaith yn 2D ac ydy hi'n bosib ei hongian ar wal?
Ydy'r gwaith yn ddim mwy na 100cm x 100cm mewn lled a taldra a dim mwy na 30cm mewn dyfnder (neu 39.5 modfedd x 39.5 modfedd x 12 modfedd)?
Ydych chi'n cysidro bod y gwaith yn addas ar gyfer cynulleidfa amrywiol o ran diwylliant ac oedran?*
Ydych chi'n byw yng Nghymru?

Os yw'r atebion yn gadarnhaol i'r pedwar cwestiwn uchod, dyma'r dyddiadau allweddol a manylion am sut i gyflwyno eich gwaith :
Os gwelwch yn dda dewch a'ch gwaith ar Fehefin 30ain neu'r 1af o Orffennaf i g39, Stryd Oxford, Caerdydd CF24 3DT rhwng 1-6yp.
Mae lle i barcio tu allan ac os oes angen help arnoch pan y cyrhaeddwch chi, os gwelwch yn dda ffoniwch y rhif isod.
Os yr ydych yn postio gwaith bydd angen ein bod ni yn ei dderbyn dim hwyrach na dydd Gwener y 7fed o Orffennaf, os gwelwch yn dda gofalwch bod cyfeiriad dychwelyd gyda'r gwaith i ni fedru ei ddychwelyd i chi ar ddiwedd yr arddangosfa.

*Os nad ydych chi'n medru danfon eich gwaith oherwydd symudedd neu resymau hygyrchedd eraill, os gwelwch yn dda cysylltwch drwy'r ebost neu'r rhif ffôn isod, a byddwn ni'n trefnu casglu eich gwaith mewn modd gwahanol.*

## Arddangosfa Agored madeinroath 2023.
## Telerau ac Amodau

### 1. Arddangos/Fframio

Byddwn yn derbyn gwaith o unrhyw gyfrwng 2D. Bydd angen i waith sydd wedi ei fframio/estyn ein cyrraedd ni yn barod i'w hongian gyda phlatiau drych wedi eu gosod hanner ffordd i lawr ochrau fertigol y gwaith. Bydd gwaith heb ei fframio yn cael ei osod gyda phinnau neu ludydd, mae croeso i chi gynnwys nodyn gyda'ch gwaith yn datgan sut byddai well ganddoch chi osod eich gwaith ar bapur ar y wal. Ni fydd gwaith gor-faint yn cael ei dderbyn.

### 2. Trosglwyddiad y gwaith

Mae angen i'r gwaith ein cyrraedd ni erbyn y dyddiadau sydd wedi eu clustnodi uchod pryd y byddwch chi'n derbyn derbyneb am eich gwaith. Ni fydd gwaith sydd yn cyrraedd ar ôl yr amseroedd yma yn cael eu hongian onid ein bod ni wedi trafod gyda chi o flaen llaw a gwneud trefniadau eraill gyda chi. Bydd cyflwr y gwaith yn cael ei wirio wrth ei ddad-bacio, a byddwch chi'n cael derbyneb amdano.

## 3. Safon a chynnwys y gwaith

Dylai bob darn o waith gael ei gyflwyno i'w safon uchaf bosib, a bod yn ddiogel i'w hongian/arddangos.
*Bydd angen i bob darn o waith fod yn addas ar gyfer cynulleidfa amrywiol o ran diwylliant ac oedran, ni fyddwn ni'n derbyn delweddau a allai fod yn dramgwyddus. MiR bydd yn penderfynu pa waith bydd yn cael ei arddangos, ac er ei fod y fwriad ganddom ni i gynnwys pob darn o waith, mae'n rhaid i ni hefyd gysidro a byddai cynnwys gwaith yn debygol o dramgwyddo. Os oes ganddoch unrhyw bryder am addasrwydd eich gwaith chi, os gwelwch yn dda cysylltwch drwy'r ebost isod a gallwn ni drafod eich pryderon chi. Mae'r penderfyniad terfynol yn un i MiR i'w wneud.

## 4. Hongian y gwaith

Bydd hongian ac arddangos y gwaith yn cael ei wneud gan MiR a thîm technegol g39, bydd y gwaith yn cael ei drîn gyda phob gofal i osgoi unrhyw niwed. Bydd rhestr o'r gwaith ar gael i ymwelwyr i'r galeri pan fydd yr arddangosfa'n agor.

## 5. Gwerthiant

Does dim angen i'r gwaith yn yr arddangosfa yma fod ar werth. Os ydy'r gwaith ar werth, os gwelwch yn dda ysgrifennwch yn glir isod beth yw pris y gwaith. Bydd y gwerthiant yn cael ei gyfrifo ar ddiwedd yr arddangosfa. Bydd g39 yn nodi a chadw pob taliad tra bo'r arddangosfa ymlaen, wedyn bydd yr arian yn cael ei ddosbarthu gan MiR ar ôl i'r arddangosfa gau.

## 6. Casglu eich gwaith

Bydd angen i chi gasglu eich gwaith o g39 ar awst 18/19 rhwng 1-6yp. **Os gwelwch yn dda rhowch wybod i ni os na allwch chi gasglu eich gwaith ar y dyddiadau yma, ni fyddwn ni'n gallu cymryd cyfrifoldeb am amser penagored am unrhyw waith heb ei gasglu.**

**Cyn i chi ddanfon eich gwaith,** os gwelwch yn dda atodwch y gwybodaeth isod i **gefn** eich gwaith. (Os na allwch chi brintio'r ffurflen hon, bydd gwybodaeth mewn llawysgrifen yn ddigonol). Mae'r gwybodaeth yma yn hanfodol er mwyn i'ch gwaith chi gael ei gynnwys yn y sioe. Byddai o gymorth mawr os byddai hyn wedi ei wneud cyn i chi gyrraedd g39, ond byddwn ni yn gallu helpu chi ar y diwrnod os nad ydych chi'n sicr o rhywbeth

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post:
Ffôn:
Ffôn symudol:
Ebost:

Teitl y Gwaith:

Pris y Gwaith os ar werth:

Arwyddwyd:

Wrth arwyddo’r uchod rydych yn cadarnhau eich bod chi’n cytuno gyda Thelerau ac Amodau Arddangosfa Agored madeinroath sydd wedi eu gosod uchod; os nad yw eich gwaith chi’n cadw at y termau hyn ni fydd yn cael ei arddangos.

—-----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os gwelwch yn dda torrwch ar hyd y llinell doredig ac atodwch y manylion yma **ar flaen** eich gwaith ar ôl i chi ei lapio.

Teitl y gwaith

Artist

Cyfrwng

Pris llawn os ar werth

£

—----------------------------------------------------------------------------------------------------------

Os gwelwch yn dda, peidiwch ac anghofio ysgrifennu eich  enw ac eich gwybodaeth cyswllt  ar gefn eich gwaith, mae hyn yn hwyluso'r gwaith hongian/casglu gwybodaeth/rhestru i ni. Diolch!

**Os oes ganddoch chi unrhyw gwestiwn, gyrrwch ebost, gail@madeinroath.com neu ffoniwch 07930397982. Rydyn ni'n edrych ymlaen i weld eich gwaith chi!**